# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Medi 2016

Amser: 14.30 - 15.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3709

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd)<br>Michelle Brown AC<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>David Melding AC |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Naomi Stocks (Ail Glerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 217KB) Gweld fel HTML (55KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

2.0a Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau a chytunodd y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

### 2.1 SL(5)008 – Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) 2016

### 2.2 SL(5)009 – Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Dosbarthau Esempt ar Leoedd Tân) (Cymru) 2016

## 3 Papur(au) i'w nodi

### 3.1 Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

3.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

### 3.2 Adroddiad gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru: Cyfiawnder yng Nghymru

3.2a Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd i:

- ofyn am gyfarfod anffurfiol gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru i drafod yr adroddiad a gwaith y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar y mater; a
- dychwelyd at y mater y tro nesaf y bydd yr Aelodau'n trafod blaenraglen waith y Pwyllgor.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Bil Cymru

5.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar Fil Cymru.